



YSGOL GYMRAEG PONTARDAWE
CYLCHLYTHYR MEDI 2019 / *SEPTEMBER 2019 NEWSLETTER*

www.npted.org/schools/primary/yggpontardawe
yggpontardawe@npt.school
<https://twitter.com/YGGPontardawe>

Croeso / Welcome

Gobeithio fod pawb wedi mwynhau'r Haf a chroeso mawr i bawb yn ôl atom ar ddechrau blwyddyn academaidd newydd.

We hope that everyone has enjoyed the summer and a warm welcome back to school for the new academic year.

Ffurflenni i Rieni / Parent Forms

Mae'r ffurflenni isod yn y pecyn. Allwn ofyn i chwi eu dychwelyd glwm cyn gynted ag y bo modd? Diolch.

The following forms are also in this pack. Could we ask you kindly to return them as soon as you can?

Gwybodaeth rhyddhau diwedd dydd / *End of day handover information*

Taflen Data Disgybl i'w gwirio / *Pupil Data Sheet for checking*

Cytundebau Cerddoriaeth / *Music Contracts (For Pupils in Receipt of Instrument Lessons)*

Ymweliadau Preswyl (Adran Iau) / *Residential Visits (Junior Department)*

Cytundebau Cartref Ysgol / *Home School Agreements*

Staff / Staff

Diolch mawr i Miss Stephanie Davies am ei gwaith yn addysgu'r Blwyddyn 4 a 5 dros y ddau dymor diwethaf. Hoffem groesawi'n ôl Miss Mair Davies a Miss Jeanette Burden yn dilyn eu cyfnodau mamolaeth. Dymuniadau gorau i chwi eich dau.

A big thank you to Miss Stephanie Davies for her work teaching year 4 and 5 over the past year two terms. We would like to welcome back Miss Mair Davies and Miss Jeanette Burden following their maternity leave. Best wishes to both.



Fel y gwyddoch, nid yw Mrs Lewis Jones wedi bod yn hwylus er rhai misoedd. Nid yw wedi gallu cychwyn yn ôl gyda ni ddechrau'r tymor. Rydym oll yn danfon ein dymuniadau gorau ati. Yn y cyfamser, bydd Miss Lowri Morgan yn parhau i addysgu'r dosbarth.

As you are aware, Mrs Lewis Jones has not been well over the last few months.

Unfortunately, she has been unable to return for the start of September. We all send her our best wishes. Miss Lowri Morgan will continue to teach the class.

Rydym yn rhoi croeso mawr i'n staff newydd / *We warmly welcome to the following new members of staff*




Mr Rhys Lewis atom i addysgu Blwyddyn 4 a 5.

Mr Rhys Lewis as our Year 4 and 5 teacher.




Mr Emyr Jones fel athro cynorthwyol.

Mr Emyr Jones as a support teacher.



Miss Carys Gunn sydd wedi ymuno â ni fel cynorthwydd addysgu yn y Cyfnod Sylfaen.

Miss Carys Gunn who has joined the staff as a teaching assistant in the foundation phase.



Mr Kevin Lewis sydd newydd gychwyn ar ei waith fel gofalwr yr ysgol.

Mr Kevin Lewis, who has commenced with us as school caretaker.

Mr Tom Rees fydd yn darparu gwersi ymarfer corff a chwaraeon ddydd Mercher.
Mr Tom Rees, who will be delivering physical education and games lesson on Wednesdays .



Cofiwch fod Mrs Natalie Fairburn ar gael fel swyddog cyswllt teulu. Ei rôl yw cynnig cymorth cyfeillgar i rieni a disgyblion a delio ag unrhyw anawsterau neu ofidion sydd gan deuluoedd yn yr ysgol neu adref.

Remember that Mrs Natalie Fairburn's position as a family liaison officer. Her role is to offer friendly support to parents and pupils and deal with any difficulties or fears that families experience in school or at home.

HMS / INSET

Mae'r diwrnodau HMS sydd eisoes wedi'u trefnu ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf isod. Mae hyn yn gadael dau diwrnod HMS i'w trefnu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Fe rown gymaint o rybudd a phosib i chwi wedi trefnu'r rhain. Cofiwch hefyd, fod Gŵyl Banc Calan Mai'r flwyddyn nesaf wedi'i symud i ddydd **Gwener Mai 8^{fed} 2020**.

*INSET days already planned for the next academic year are listed below. This leaves two INSET days yet to organise. As soon as these are organised, we will provide as much notice as possible. Also, a reminder that next year's May Day Bank holiday has been moved to **Friday 8th May 2020**.*

Dydd Gwener, Hydref 4^{ydd} / *Friday, October 4th 2019*

Dydd Gwener, Gorffennaf 17^{eg} 202 / *Friday July 17th 2020*

Dydd Llun, Gorffennaf 20^{fed} 2020 / *Monday, July 20th 2020*

Newyddion cyffrous / Exciting News

Y newyddion diweddaraf yw fod y cais cynllunio wedi bod yn llwyddiannus ac y mae'r awdurdod yn gweithio ar dendrau gyda chontractwyr. Mae'n debygol y bydd y gwaith yn cychwyn tua'r Nadolig gyda'r bwriad o gwblhau'r gwaith erbyn Medi 2020. Fe fydd y cynlluniau ar gael i'w trafod yn ystod y Nosweithi Croesawi Adran ar y 9^{fed} a'r 10^{fed} o Fedi.

The latest news is that the planning application has been successful and that the authority is at the tender stage with contractors. It is likely that the work will commence around Christmas with a planned completion date of September 2020. Plans will be available for parents to view on the Department Welcome Evenings on the 9th and 10th September.

Dysgu Cymraeg / Learn Welsh?

Mae cyrsiau Dysgu Cymraeg yn dechrau ar draws Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot dros yr wythnosau nesaf. Cynhelir rhai cyrsiau yn Nhŷ'r Gwrhyd ym Mhontardawe. Os oes diddordeb gennych, mae linc i'r pamffled sydd yn cynnwys pob cwrs sydd yn dechrau dros yr wythnosau nesaf isod.

<https://learnwelsh.cymru/media/6337/dcaba-course-brochure-2019.pdf>

Mae manylion pellach am ddysgu Cymraeg ar wefan Dysgu Cymru:

<https://dysgucymraeg.cymru/amdanom-ni/darparwyr-cyrsiau/dcaba/>

Learn Welsh courses will be starting across Swansea and Neath Port Talbot over the next few weeks. Some courses will be held in Tŷ'r Gwrhyd in Pontardawe. A link to the brochure which has details of every course starting over the next few weeks follows. <https://learnwelsh.cymru/media/6337/dcaba-course-brochure-2019.pdf>

More details can also be found on the LearnWales website:

<https://learnwelsh.cymru/about-us/providers/swansea-university/>

Cinio Ysgol / School Dinner

Rydym wedi'n hysbysu y bydd pris cinio ysgol gynradd o'r 2^{ail} o Fedi 2019 ymlaen yn £ 2.35 y dydd - £11.75 yr wythnos. Bob blwyddyn mae'n rhaid i ni gyflwyno data i DEWI (Ystadegau Llywodraeth Cymru) ar gyfer ein cyllid yn y dyfodol. O'r data yma, mae'n amlwg nad yw pob teulu sydd â hawl i Brydau Ysgol am Ddim yn ymgeisio amdano. Gallai hyn effeithio ar ein cyllid. Anogwn bob rhiant a allai fod yn gymwys i wneud cais hyd yn oed os ydynt yn parhau yn awyddus i dalu am bryd bwyd eu plant neu eu darparu â phegyn bwyd. (plant 5 oed neu'n hŷn sy'n gymwys). Ymdrinnir â'r broses mewn ffordd hollol gyfrinachol. Os credwch fod gennych yr hawl i Brydau Ysgol am Ddim, gallwch ein helpu trwy wneud cais gan y gallai gael effaith ddramatig ar ein cyllid yn y dyfodol. Mae'r ffurflen gais ar gael ar ein gwefan o dan y tab Gwybodaeth i Rienï neu mae copïau caled ar gael o swyddfa'r ysgol.

We have been notified that as of the 2nd September 2019, the price of a primary school meal will be £2.35 per day - £11.75 per week. Every year we submit data to DEWI (Welsh Government Statistics) that contributes in part to our future funding. From this data it is evident that not all families whose children are entitled to Free School Meals are applying. This could affect our funding. We would encourage all parents who believe they may be eligible to apply even if you still wish to pay for your child's meal or supply them with a packed lunch. (Eligibility is for children of 5 years or older). All personal information regarding your child is dealt with in a completely confidential manner and this includes whether or not the child is entitled to Free School Meals. If you are entitled to Free School Meals then please help us by applying as it could have a dramatic effect on our future funding. The application form is available on our website under the Information for Parents tab or a hard copy from the school office.

Hanner Can Mlwyddiant yr Ysgol / School Fifty Year Celebration

Mae nifer o weithgareddau wedi'u trefnu dros y flwyddyn i ddod i ddathlu hanner can mlynedd fel ysgol benodedig Gymraeg. Y digwyddiad nesaf fydd Noson Lawen ar **nos Iau, Hydref y 3^{ydd} am 7:00yh** yn y Ganolfan Gelfyddydau. Croeso mawr i bawb. Fe'ch hysbyswn o drefniadau tocynnau yn fuan. Os hoffech, neu adnabyddwch unrhyw un yr hoffai ddarparu eitem (bydded yn gân, comedi, sgets neu ddawns) gadewch i ni wybod drwy e-bostio'r ysgol.

*A number of activities have been arranged to celebrate fifty years as a Welsh Medium School. The next will be a Noson Lawen on **Thursday, October 3rd at 7:00pm** at the Pontardawe Arts Centre. A warm welcome to all. We will advise you of ticket information very soon. If you know of any former pupils or parents who would like to perform (a song, stand up, a sketch or dance), please let us know by emailing the school.*

Goruchwylwyr Cinio / Lunchtime Supervisors

Fe fyddwn yn hysbyseb'u'n fuan am oruchwylwyr amser cinio. Os wyddoch am unrhyw un a allai sbario awr amser cinio i ymgymryd â'r rôl, anogwch nhw i gysylltu â'r ysgol. (Byddai dau neu dri amser cinio yn ystod yr wythnos o gymorth mawr)

We will soon be advertising for lunchtime supervisors. If you know of anyone (parents / grandparents) who could spare an hour at lunchtimes, encourage them to contact the school. (Two or three lunchtimes a week would be a great help).

Gwisg Ysgol / School Uniform

Roedd yn galonogol iawn gweld y disgyblion yn gwisgo eu gwisg ysgol yr wythnos gyntaf (yn enwedig blwyddyn 6). Diolch i bawb ac anogwn chwi i sicrhau fod y disgyblion yn gwisgo'r wisg swyddogol drwy'r amser. Cofiwch fod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Grant Mynediad PDG. Ei bwrpas yw darparu cymorth i deuluoedd ar incwm isel brynu gwisg ysgol a chyfrannu at gostau eraill sy'n gysylltiedig â'r ysgol. Mae bellach ar gael i ddisgyblion sy'n gymwys i Brydau Ysgol am Ddim fydd yn mynychu'r dosbarth derbyn ym Medi 2019, Blwyddyn 3 ym Medi 2019 a Blwyddyn 7 ym Medi 2019. Mae rhagor o wybodaeth a furlenni cais ar lein i'w cael wrth ymweld â www.npt.gov.uk/1316?lang=cy-gb.

It has been heartwarming to see the pupils looking so smart in their new uniforms the first week back after the summer (especially year 6). A big thank and please ensure that pupils do wear the official uniform every day. Remember that the Welsh Government has introduced a PDG Access Grant. The purpose of which is to provide assistance to families on low incomes for the purchase of school uniforms and a number of other costs associated with school. It is now available to pupils who are eligible for Free School Meals entering the reception class in September 2019, Year 3 in September 2019 and Year 7 in September 2019. Further information and online application forms are available by visiting www.npt.gov.uk/1316.

Diwrnod T Llew Jones / T Llew Jones Day

Ar ddydd Gwener, Hydref 11^{fed} fe fydd yn amser unwaith eto i gofio diwrnod pen-blwydd T Llew Jones, un o awduron plant enwocaf Cymru. Er mwyn dathlu, gwahodddwn y disgyblion i wisgo mewn lliwiau'r Hydref (coch, brown ac oren). Am fwy o wybodaeth am ei lyfrau ewch i www.gwales.com.

On Friday, October 11th it will be time again to celebrate the birthday of T Llew Jones, regarded as Wales's most famous children's writer. To celebrate we are inviting pupils to dress in Autumn colours (red, brown and orange). For further information regarding his books, please visit www.gwales.com.

Ymgynghoriad Trafnidiaeth / Transport Consultation

Diolch o galon i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad trafndiaeth. Y newyddion diweddaraf yw fod y Cyngor wedi gohirio'r penderfyniad am y tro i gywain gwybodaeth pellach. Fe'ch hysbyswn pan dderbyniwn fwy o wybodaeth.

Many thanks to all who responded to the transport consultation. The latest news is that the Council has deferred the decision pending further advice. We will advise you when we receive more information.

Clybiau Allgyrsiol / After School Clubs

Bydd y clybiau yn cychwyn yr wythnos yn cychwyn ar y 17^{fed} / 18^{eg} / 19^{fed} o Fedi. Fel y llynedd, i'n galluogi i gynnal ystod y clybiau, byddwn yn codi £1 y pen am bob clwb.

Clubs will commence on the 17th / 18th / 19th of September. As last year, to enable us to maintain the range of clubs, we will be charging £1 per head per club.

Nos Fawrth / Tuesday Night

Clwb Chwaraeon (Bl. 1 a 2) / *Games Club (Yrs 1 and 2)*

Nos Fercher / Wednesday Night

Clwb Chwaraeon (Bl. 3 i 6) / *Games Club (Yrs 3 to 6)*

Nos Iau / Thursday Night

Cynhelir **Adran y Barli** rhwng 3.15 - 4.15 ar gyfer Bl3 i Fl 6. Cynigir amrywiaeth o weithgareddau yn ystod y tymor megis rygbi, pêl droed, pêl rwyd, gweithdai celf a choginio, gemau bwrdd, bingo, drama, cyfeiriannu, codio a chwaraeon tîm. Y gost yw £1 yr wythnos a bydd angen bod yn aelod o'r Urdd.

Adran y Barli meets 3.15 – 4.15pm for Yrs 3 – 6 pupils.

The menu of activities during the term includes netball, rugby, soccer, ball skills, art/cookery workshops, coding and bingo. The cost is £1 per week and pupils will need to be members of the Urdd.

Clwb Côr – Noson i'w gadarnhau / *School Choir – Evening to be confirmed*

Gwersi Offerynnol / Instrument Lessons

Os hoffech i'ch plentyn gychwyn gwersi offerynnol eleni, gadewch i ni wybod. Cofiwch, fel rhan o'r ddarpariaeth, gellir benthg offerynnau am ddim.

If you would like your child to take up instrumental lessons, please let us know. Remember, these lessons can also include a free loan of an instrument.

(Cyfraniad o £120 y flwyddyn / £3:15 yr wythnos / *Contribution of £120 a year / £3:15 a week*)

Dydd Llun / *Monday* - Telyn / *Harp* (Miss Katie Bayliss)

Dydd Iau / *Thursday* - Drymiau / *Drums* (Mr Lyn Rees)

Dydd Gwener / *Friday* - Llinynnol / *Strings* (Mrs Sharon Williams) a Prês / *Brass* (Mr Wayne Pedrick)
- Chwythbrennau i'w cadarnhau / *Woodwind to be confirmed*

Ar ddydd Iau, Medi'r 12^{fed}, bydd disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn cael y cyfle i weld, clywed a phrofi'r holl ystod o offerynnau a gynigir drwy'r Gwasanaeth Cerdd. Os yw'r disgyblion yn arddangos diddordeb mewn chwarae offeryn byddwn yn cysylltu â rhieni wedi hynny. Fe gynhelir clyweliadau ar gyfer eu dysgu (os yn briodol). Os hoffech i'ch plentyn dderbyn unrhyw un o'r gwersi offerynnol, cysylltwch â ni. (B3 - B6). Gellir hefyd menthyg offerynnau heb dal.

On Monday, September 12th, year 5 and 6 pupils will provided the opportunity to see, hear and experience the range of instruments offered by the Music Service. If the pupils show an interest in playing an instrument, we'll contact parents with further details. Auditions may be held (if appropriate). If you would like your child to receive any of the above instrument lessons, please let us know. (Y3 – Y6). These lessons can also include a free loan of an instrument.

Apêl Diogelwch / Safety Appeal

Clwb Brecwast - Mae'n clwb brecwast yn agor am 8:00yb tan 8.30. Cofiwch mai cyfrifoldeb rhieni yw diogelwch y disgyblion hyd agorir drysau'r clwb am 8:00yb. Rydym yn pryderu am adroddiadau fod nifer yn cael eu gollwng mor gynnar â 7:45yb. Oherwydd y pryder yma, ni fyddwn yn agor y gatau tan o leiaf 7:55yb. Cofiwch na all y clwb dderbyn disgyblion ar ôl 8:20yb.

Breakfast Club - Our breakfast club is open at 8.00 until 8.30am. Could parents please remember that pupils must be supervised until the doors open at 8.00am. We are concerned at reports of pupils being dropped off as early as 7:45am. Due to this concern, we will not be opening the gates until at 7:55am at the earliest. Remember, the club cannot accept pupils after 8:20am.

Diwedd Dydd - I sicrhau fod disgyblion yn cael eu trosglwyddo'n ddiogel, all rhieni sicrhau eu bod yn dod i waelod y grisiau pan welant eu plant yn disgwyl. Gofynnwn yn garedig i rieni osgoi dringo'r grisiau at staff. Os hoffech gael sgwrs â nhw, gadewch iddynt wybod ac fe wnânt ymuno a chwi ar waelod y grisiau.

End of Day - *To ensure that pupils are safely handed over, could parents ensure that they make their way to the bottom of the stairs when they see their children ready to be released. Could we kindly ask parents to avoid climbing the stairs towards the staff. If you need to speak to them, please let them know and they'll join you at the bottom of the stairs.*

Maes Parcio – Ar gychwyn blwyddyn, gofynnwn yn garedig i'n holl rieni osgoi parcio yn y ardaloedd anabl heb fathodyn, parcio ar balmantau a chau'r llwybrau diogel i deuluoedd gerdded i ac o'r ysgol. Fydech chi hefyd yn gallu dangos ystyriaeth i'n cymdogion ym Maes yr Ysgol. Cofiwch roi blaenoriaeth i gerddwyr bob amser.

Car Park – *At the commencement of the academic year, could we kindly remind all parents not to park in the disabled bay without a valid badge, to park on pavements and block the safe routes for our families as they walk to and from school. Please also show consideration for our neighbours in Maes yr Ysgol. Remember to always give priority to pedestrians.*

Cofion Gorau / *Best Wishes*



Ceri Emanuel
Pennaeth / *Headteacher*

Ychydig o ddyddiadau ar gyfer tymor sydd i ddod ----->
A few dates for the term ahead



Ysgol Gymraeg Pontardawe

Dyddiadur Hydref 2019 / *Autumn 2019 Diary*

Dydd Llun, Medi'r 2 ^{ail} <i>Monday, September 2nd</i>	HMS <i>INSET</i>
Nos Lun Medi 9 ^{fed} <i>Monday, September 9th</i>	Noson Groesawu Meithrin / Derbyn am 3:20yh <i>Nursery / Reception Welcome Evenings at 3:20pm</i>
	Noson Groesawu B1&2 am 4:00yh <i>Y1&2 Welcome Evenings at 4:00pm</i>
Nos Fawrth Medi 10 ^{fed} <i>Tuesday, September 10th</i>	Noson Groesawu B3&4 am 3:30yh <i>Y3&4 Welcome Evenings at 3:30pm</i>
	Noson Groesawu B5&6 am 4:10yh <i>Y5&6 Welcome Evenings at 4:10pm</i>
Dydd Iau Medi 12 ^{fed} <i>Thursday, September 12th</i>	B 5&6 – Sioe Deithiol Peripatetig – YGYBD <i>Y5&6 – Peripatetic Roadshow – Ysgol Ystalyfera Bro Dur</i>
Medi 18 ^{fed} i'r 25 ^{ain} <i>September 18th to 25th</i>	Llyfrau Teithiol yn ymweld â'r ysgol (cyfle i brynu llyfrau) <i>Travelling Books in school (opportunity for pupils to purchase)</i>
Dydd Iau Medi 19 ^{eg} <i>Thursday, September 19th</i>	Diwrnod Mentergarwch B6 yn YG Ystalyfera <i>Year 6 Entrepreneurship day at YG Ystalyfera</i>
Dydd Iau, Medi 20 ^{fed} <i>Thursday, September 20th</i>	Ymweliad B1&2 (Mrs Saunders a Miss Lewis) â Sain Ffagan <i>Y1&2 (Mrs Saunders & Miss Lewis) visit to the St Fagans</i>
Dydd Mercher Hydref 2 ^{ail} <i>Wednesday, October 2nd</i>	B5&6 – Ymweliad i Techniquet <i>Y5&6 – Visit to Techniquet</i>
Nos Iau Hydref 3 ^{ydd} <i>Thursday evening, October 3rd</i>	Noson Lawen Dathliad 50 yn y Ganolfan Gelfyddydau <i>50 Year Noson Lawen at the Arts Centre</i>
Dydd Gwener, Hydref 4 ^{ydd} <i>Friday, October 4th</i>	HMS <i>INSET</i>
Dydd Mercher Hydref 9 ^{fed} <i>Wednesday, October 9th</i>	B5 – Sioe Gerdd Ysgol Gyfun Ystalyfera Bro Dur <i>Y5 – Ysgol Gyfun Ystalyfera Bro Dur Musical</i>
Dydd Gwener Hydref 11 ^{eg} <i>Friday, October 11th</i>	Diwrnod Cofio T Llew Jones <i>T Llew Jones Day</i>
Llun i Wener Hydref 7 ^{fed} i'r 11 ^{fed} <i>Monday to Friday October 7th to 11th</i>	Ymweliad Preswyl Blwyddyn 6 â Than y Bwlch <i>Year 6 Residential Visit to Tan y Bwlch, Snowdonia</i>
Dydd Mawrth Hydref 15 th <i>Tuesday, October 15th</i>	Finesse – Llundiau Unigol <i>Finesse Photography – Individual Photographs</i>
Llun i Wener Hydref 21 ^{ain} i'r 25 ^{ain} <i>Monday to Friday October 21st to 25th</i>	Ymweliad Preswyl Blwyddyn 3 â Margam <i>Year 3 Residential Visit to Margam</i>
Hanner Tymor – Hydref 25^{ain} i Tachwedd 4^{ydd} <i>Half Term – Friday, October 25th to Monday, November 4th</i>	
Llun i Wener Tachwedd 4 ^{ydd} i'r 8 ^{fed} <i>Monday to Friday November 4th to 8th</i>	Bloc Nofio B3 <i>Y3 Swimming Block</i>
Llun i Wener Tachwedd 11 ^{eg} i'r 15 ^{fed} <i>Monday to Friday November 11th to 15th</i>	Bloc Nofio B4 <i>Y4 Swimming Block</i>
Nos Llun 11 ^{fed} a'r 18 ^{eg} , Nos Fawrth 12 ^{fed} a'r 19 ^{eg} o Dachwedd <i>Monday 11th, 18th and Tuesday 12th and 19th of November</i>	Nosweithi Rhieni <i>Parents Evenings</i>
Dydd Iau Tachwedd 28 ^{ain} <i>Thursday, November 28th</i>	Nyrs Ysgol – Chwistrell Ffliw (D i F6) <i>School Nurse – Flu Nasal Inoculation (R to Y6)</i>
Dydd Mawrth, Rhagfyr 3 ^{ydd} <i>Tuesday, December 3rd</i>	Gwasanaeth Nadolig Meithrin a Derbyn (9:00yb) <i>Nursery and Reception Christmas Concert (9:00am)</i>
Dydd Mercher, Rhagfyr 4 ^{ydd} <i>Wednesday, December 4th</i>	Gwasanaethau Nadolig B1 a 2 (10:00yb a 2:00yp) <i>Year 1 and 2 Christmas Concerts (10:00am and 2:00pm)</i>
Dydd Iau, Rhagfyr 12 ^{fed} <i>Thursday, December 12th</i>	Gwasanaethau Nadolig Adran Iau (10:30yb a 4:00yh) <i>Junior Department Christmas Services (10:00am and 4:00pm)</i>
Diwedd Tymor – Cau ar ddydd Gwener, Rhagfyr 20^{fed} ac yn ail agor ar ddydd Llun, Ionawr 6^{ed} <i>End of Term – School closes on Friday, December 20th and will re-open on Monday, January 6th</i>	

Prynhawn Mawrth, Ionawr 28 ^{ain} <i>Tuesday, January 28th</i>	Prynhawn dathlu gwaith disgyblion Adran Iau (1:30-5:00yp) <i>Key stage 2 pupil achievement open afternoon (1:30-5:00pm)</i>
Prynhawn Mawrth, Chwefror 4 ^{ydd} <i>Tuesday, February 4th</i>	Prynhawn dathlu gwaith disgyblion Cyfnod Sylfaen <i>Foundation Phase pupil achievement open afternoon</i>
Hanner Tymor y Gwanwyn 15^{fed} – 23^{ain} Chwefror / <i>Spring Half Term 15th – 23^d February</i>	
Llun i Wener Chwefror 24 ^{ain} i'r 28 ^{ain} <i>Monday to Friday February 24th to 28th</i>	Bloc Nofio B5 <i>Y5 Swimming Block</i>
Dydd Gwener Chwefror 28 ^{ain} <i>Friday February 28th</i>	Dathliadau Gŵyl Dewi ac Eisteddfod yr Ysgol <i>St David's Day Celebration and School Eisteddfod</i>
Llun i Wener Mawrth 2 ^{ail} i'r 6 ^{ed} <i>Monday to Friday March 2nd to 6th</i>	Bloc Nofio B6 <i>Y6 Swimming Block</i>
Nos Llun 23 ^{ain} a'r 24 ^{ain} , Nos Fawrth 30 ^{ain} a'r 31 ^{ain} o Fawrth <i>Monday 23rd, 24th and Tuesday 30th and 31th of March</i>	Nosweithi Rhieni <i>Parents Evenings</i>
Pasg – Cau ar ddydd Gwener, Ebrill 3^{ydd} ac yn ail agor ar ddydd Llun, Ebrill 20^{fed} <i>Easter – School closes on Friday, April 3rd and will re-open on Monday, April 20th</i>	
28 ^{ain} Ebrill i'r 5 ^{ed} o Fai 2020 <i>28th April to the 5th May 2020</i>	Profion Cenedlaethol (B2 – B6) <i>National Tests (Y2 – Y6)</i>
Dydd Gwener Mai 8 ^{fed} <i>Friday, May 8th</i>	Gwyl y Banc <i>Bank Holiday</i>
Dydd Iau Mai 21 ^{ain} <i>Thursday, May 21st</i>	Mabolgampau'r Ysgol (Meith 9:00yb, CS 10:30yb, CA2 1:15yp) <i>School Sports Day (Nursery 9:00am, FP 10:30am, KS2 1:15pm)</i>
Hanner Tymor y Sulgwyn 23^{ain} – 31^{ain} Mai / <i>Whitsun Half Term 23th – 31st May</i>	
Llun, i Wener Mehefin 1 ^{af} i'r 5 ^{ed} <i>Monday to Friday June 1st to 5th</i>	Ymweliad Preswyl Blwyddyn 4 a Dan y Wenallt <i>Year 4 Residential Visit Danywenallt (2.5 days / pupil)</i>
Mercher i Wener Mehefin 3 ^{ydd} i'r 5 ^{fed} <i>Wednesday to Friday June 3rd to 5th</i>	Ymweliad Preswyl Blwyddyn 5 â Llangrannog <i>Year 5 Residential Visit to Llangrannog</i>
Dydd Iau Mehefin 11 ^{eg} <i>Thursday, June 11th</i>	B6 - Diwrnod Pontio Ysgol Gyfun Ystalyfera Bro Dur <i>Y6 – Ysgol Gyfun Ystalyfera Bro Dur Transition Day</i>
Dydd Gwener, Gorffennaf 3 ^{ydd} <i>Friday, July 3th</i>	Mabolgampau Clwstwr Ysgolion YG Ystalyfera <i>YG Ystalyfera Cluster Sports Day</i>
Dydd Llun, Gorffennaf 6 ^{ed} <i>Monday, July 6th</i>	Nosweithi Rhieni <i>Parents Evenings</i>
Dydd Iau, Gorffennaf 9 ^{fed} <i>Thursday, July 9th</i>	Cyngerdd Gadael Blwyddyn 6 (1:30yp) <i>Year 6 Leaver's Concert (1:30pm)</i>
Dydd Gwener, Gorffennaf 10 ^{fed} <i>Friday, July 10th</i>	B6 - Gig Siarter Iaith yn YG Ystalyfera Bro Dur <i>Y6 - Language Charter Gig at YG Ystalyfera Bro Dur</i>
Dydd Gwener, Gorffennaf 17 ^{eg} <i>Friday, July 17th</i>	HMS <i>INSET</i>
Dydd Llun, Gorffennaf 22 ^{ain} <i>Monday, July 20th</i>	HMS <i>INSET</i>
Haf – Cau i ddisgyblion ar ddydd Iau, Gorffennaf 16^{eg} ac yn ail agor i ddisgyblion ar ddydd Mercher, Medi'r 2^{ail} <i>Summer – School closes for pupils on Thursday, July 16th and will re-open to pupils on Wednesday, September 2nd</i>	